Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Trosolwg

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016





Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6959-4 ISBN argraffu 978-1-4734-6960-0



Mae'r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.




Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad cenedlaethol eu gwasanaethau.



Os ydych chi am wybod beth ddywedodd y bobl ag anableddau dysgu, edrychwch am y bocsys melyn.




Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio, edrychwch am y bocsys glas.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.



# Cynnwys


**Rhan 1 Cyflwyniad** **6**



**Croeso** **7**



**Beth wnaethon ni** **16**

**Rhan 2 Beth welodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan** 26




**Beth wnaeth y sefydliadau hyn** 27




**Beth welodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan** 28




**Beth welodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan** 36




**Sut wnaethon ni ddefnyddio'r wybodaeth hon** 40




**Rhan 3 Beth welodd yr arolygwyr** 41




**Ffeithiau o'r holiaduron** 42

**Cwestiwn 1** A yw cynghorau lleol yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol? 50

**Cwestiwn 2** Pa mor dda mae cynghorau lleol yn:

- rhoi gwybodaeth a chyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau
- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor
- cynllunio gofal

68

**Cwestiwn 3** A oes gan gynghorau lleol weledigaeth glir, ac a yw pobl eraill yn cytuno â'r weledigaeth honno? 98

# Rhan 1 Cyflwyniad




# Croeso




Rhwng Gorffennaf 2015 a Chwefror 2016, edrychon ni ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.






Rydyn ni eisiau gwybod os yw pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.




Gwirion ni os yw gwasanaethau gofal a chymorth:



- yn gweithio'n dda



- o ansawdd da



- yn ddiogel



Efallai y bydd angen gwasanaethau iechyd anableddau dysgu ar bobl ag anableddau dysgu hefyd.

Felly gweithiodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gyda ni ar yr arolygiad.




Mae angen i ni wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol. Felly, gofynnon ni i Bobl yn Gyntaf Cymru a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan i weithio gyda ni.



## Yr adroddiadau




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru Gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o'r 6 chyngor lleol




**Dyma'r adroddiad Cymru Gyfan.**





Mae'r adroddiad hwn yn dweud:

- beth wnaethon ni




- beth welodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan




- beth welodd yr arolygwyr





## Fformatau gwahanol




Dyma’r crynodeb Hawdd ei Ddarllen o'r adroddiad Cymru Gyfan.




Ar ein gwefan mae:




- Crynodeb Hawdd ei Ddarllen Cymru Gyfan




- Yr adroddiad Cymru Gyfan




- Crynodebau Hawdd eu Darllen y 6 chyngor lleol

- Y 6 adroddiad cyngor lleol



- Fideo am yr arolygiadau. Gweithion ni'n agos gyda Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ar y fideo




Gallwch chi ofyn i ni os ydych chi am gael y wybodaeth mewn fformat gwahanol.




**Diolch**

Diolch yn fawr i Bobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan am weithio gyda ni.




Diolch yn fawr i'r bobl oedd wedi rhoi eu hamser, help a syniadau pan aethon ni i'r 6 ardal cyngor lleol:



pobl ag anableddau dysgu



- rhieni a gofalwyr




- staff a rheolwyr




- darparwyr gwasanaeth



- partneriaid, yn enwedig mudiadau gwirfoddol




Diolch i'r sefydliadau hyn, eu gwirfoddolwyr a'u haelodau oedd wedi ein helpu ni i ddweud wrth bobl am ein gwaith:

- Mencap

- Anableddau Dysgu Cymru

- Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan

## Unrhyw gwestiynau?




Cysylltwch â ni os oes gennych gwestiynau am yr adroddiad hwn:



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ




cssiw@wales.gsi.gov.uk



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ




hiw@wales.gsi.gov.uk

# Beth wnaethon ni




## Ein 3 chwestiwn

Roedden ni am ateb 3 chwestiwn:



**Cwestiwn 1** A yw cynghorau lleol yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol?



**Cwestiwn 2** Pa mor dda mae cynghorau lleol yn:



- rhoi gwybodaeth a chyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal



**Cwestiwn 3** A oes gan gynghorau lleol weledigaeth glir, ac a yw pobl eraill yn cytuno â'r weledigaeth honno?




**Adroddiadau arolygu am wasanaethau**



Cawson ni 60 o adroddiadau arolygu am wasanaethau ar draws Cymru.




Edrychon ni ar yr adroddiadau am unrhyw wybodaeth am ein 3 chwestiwn.




## Holiaduron



Anfonon ni holiadur at




- yr holl gynghorau lleol




- yr holl fyrddau iechyd




Roedd yr holiaduron yn gofyn:



- faint o bobl ag anableddau dysgu oedden nhw'n gwybod amdanyn nhw yn eu hardal



- lle mae'r bobl yn byw




Roedd yr holiadur i gynghorau lleol hefyd yn gofyn am wybodaeth am:



- fywydau pobl ag anableddau dysgu



- beth mae'r cyngor lleol yn ei wneud i bobl ag anableddau dysgu



- faint mae'r cyngor yn gwario ar wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu




- ein 3 chwestiwn



- beth sydd wedi ei gwneud yn fwy hawdd neu'n fwy anodd i'r cyngor lleol wneud newidiadau



## Ymweliadau




Aethon ni i weld 6 chyngor lleol:

- Gwynedd
- Conwy
- Torfaen
- Merthyr
- Pen-y-bont
- Penfro




Ym mhob ardal cyngor lleol, edrychon ni (AGGCC) ar y cyngor.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan gyda'u haelodau a phobl eraill yn yr ardal leol. Dywedon nhw wrthon ni beth oedd pobl wedi dweud.




- Treulion ni bythefnos yn ardal y cyngor lleol.




  - Edrychon ni ar ffeiliau 20 o bobl.




  - Cawson ni wybod mwy am 8 o'r bobl hynny.



- Siaradon ni â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol. Roedd peth o hyn mewn grwpiau. Roedd peth o hyn yn 1 i 1.



- Aethon ni i gyfarfodydd a mynd i weld gwasanaethau.






- Aethon ni i sgwrs gan y cyngor lleol a'r bwrdd iechyd am sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd. Ar ddiwedd y sgwrs, gofynnon ni gwestiynau iddyn nhw.

Ym mhob ardal cyngor lleol, edrychon ni (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru) ar y bwrdd iechyd.




- Cawson ni wybod am 4 o bobl y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn talu am eu cymorth.



  - Edrychon ni ar eu ffeiliau.



  - Siaradon ni â gweithwyr proffesiynol.



  - Gwnaethon ni gwrdd â'r bobl a'u teuluoedd.




- Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr byrddau iechyd, gan gynnwys rhywun o'r tîm diogelu.





- Cawson ni gyfarfod i'r tîm iechyd cymunedol.





- Cawson ni gyflwyniad gan y bwrdd iechyd a'r cyngor lleol am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.

# Rhan 2




## Beth welodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Fforwm Rhien a Gofalwyr Cymru Gyfan



## Beth wnaeth y sefydliadau hyn




Gwnaeth y ddau sefydliad ein helpu ni i baratoi gweithdai i bobl ag anableddau dysgu.

Gwnaethon ni'r gweithdai yng nghynhadledd Anableddau Dysgu Cymru ym mis Tachwedd 2015.







Rhedodd y ddau sefydliad sesiynau ymgynghori gyda'u haelodau yn y 6 ardal cyngor lleol aethon ni i'w gweld.



Gwnaeth Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ymgynghori  â thua 100 o bobl ag anableddau dysgu.



Gwnaeth Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan ymgynghori â rhieni a gofalwyr ar draws Cymru. Helpon nhw hefyd gyda chyfarfodydd i rieni a gofalwyr yn y 6 ardal cyngor lleol aethon ni i'w gweld.




**Beth welodd Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan**



**Rheolwr gofal**



Roedd rhai pobl yn dweud pethau da am eu rheolwyr gofal.



"Byddan nhw yn ei wneud e, mae'n cymryd ychydig o amser, ond mae hi yn gwneud beth mae hi'n dweud y bydd hi'n gwneud."

"Maen nhw'n well nag oedden nhw'n arfer bod (i mi)."




Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dweud pethau dim cystal am eu rheolwyr gofal.



"Nid yw bob amser yn cadw addewidion ac weithiau pan nad yw'n gwneud hynny, nid yw'n egluro pam."



"Roeddwn i'n arfer gweld gweithwyr cymdeithasol gwahanol bob tro a byddai'n rhaid i mi egluro o'r dechrau. Doeddwn i ddim yn gallu adeiladu perthynas, doeddwn i ddim yn eu hadnabod nhw a doedden nhw ddim yn fy adnabod i. Nawr rydw i wedi cael yr un person am ddau fis, ond mae'r sefyllfa yr un peth oherwydd nid yw e wedi fy ngweld i lawer. Rwy'n teimlo'n nerfus pan fyddaf yn ei weld ac mae fy nghalon yn curo yn gyflym. "



Nid yw pobl bob amser yn siŵr os oes ganddyn nhw weithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal.




Mae rhai pobl yn llwyddo i adeiladu eu rhwydweithiau cymorth eu hunain sy'n llenwi'r bylchau sy’n cael eu gadael gan y gwasanaethau gofal a chymorth.



Yn aml nid yw pobl heb weithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal yn gwybod nac yn deall pam nad oes ganddyn nhw un.



Mae angen i bobl ag anableddau dysgu ddeall pam mae eu gwasanaethau a chymorth yn newid.



Mae angen iddyn nhw ddeall y gall fod yn dda i gael cymorth yn eich cymuned.



Mae angen iddyn nhw ddeall nad oes rhaid iddyn nhw ddibynnu ar wasanaethau cymdeithasol ar gyfer popeth.




Mae angen iddyn nhw wybod y gallan nhw ofyn am wybodaeth, cyngor neu gymorth ar unrhyw adeg, hyd yn oed os nad oes gweithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal ganddyn nhw.



Os nad yw pobl ag anableddau dysgu yn deall hyn, efallai y byddan nhw'n teimlo'n unig ac yn ddryslyd.




Ond efallai y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn meddwl eu bod nhw wedi helpu'r person i fod yn fwy annibynnol a chael bywyd gwell.



Mae llawer o bobl eisoes yn dibynnu ar eu teuluoedd yn fwy nag y maen nhw'n dibynnu ar wasanaethau.



**A yw gofal a chymorth yn gweithio'n dda**



Siaradodd pobl mewn grwpiau am:




- y wybodaeth, cymorth a chyngor y gallan nhw ei gael




- a yw staff y cyngor lleol yn gwneud beth maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud



- a yw pobl yn dangos parch atyn nhw



Dywedodd pobl fod llawer o daflenni â gormod o eiriau arnyn nhw, mae'r print yn rhy fach ac nid oes digon o luniau.



Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod nhw’n cael help i feddwl am beth maen nhw am ei wneud pan fyddan nhw’n dod yn oedolion.



Dywedodd llawer o bobl eu bod nhw’n teimlo'n anniogel iawn pan fyddan nhw allan yn y gymuned.



"Rwy'n poeni mewn llefydd y cyngor – mae pobl yn chwerthin ac rwy’n gadael."

"Mae pobl yn y gymuned yn galw enwau arnaf i a fy nheulu."



"Weithiau mae'r cyrbau yn rhy uchel i fy nghadair olwyn ac nid yw’r llwybrau yn ddigon llydan felly rwy'n poeni byddaf yn syrthio i mewn i'r ffordd neu os byddaf yn mynd ar y ffordd byddaf yn cael fy mwrw i lawr."



Dywedodd pobl eu bod nhw am ddibynnu llai ar wasanaethau anableddau dysgu.




Mae hyn yn golygu bod angen i gynghorau lleol feddwl am gludiant cyhoeddus, canol trefi a ffyrdd i bobl deimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus.



Am gyfnod hir ym Mhen-y-bont, mae cyswllt da wedi bod rhwng yr heddlu a grŵp 'Pobl yn Gyntaf' lleol. Mae pobl ag anableddau dysgu wedi helpu i roi hyfforddiant i'r heddlu. Oherwydd hyn, dywedodd pobl y bydden nhw'n hapus i gysylltu â'r heddlu, er enghraifft, os oedden nhw'n cael eu hecsbloetio.



"Roedd symud y cyngor i mewn i'r llyfrgell yn dda – mae'r llyfrgellwyr yn helpu llawer. Maen nhw'n helpu i ddarllen y taflenni. "



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod nhw’n hapus gyda'r staff sy'n eu cefnogi nhw.





"Rydyn ni’n teimlo fel tîm - er efallai rydyn ni’n dadlau, mae'r staff yn ein cefnogi ni i ddatrys y broblem ac rydyn ni i gyd yn gyfartal."

"Mae fy staff cymorth yn fy helpu i ddeall cyngor."

Cawson ni weithdy yng Nghynhadledd Anabledd Dysgu Cymru. Gallwch chi weld yr adroddiad ar ffurf lluniau cyfan yma:

cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/151221visualmap.pdf






## Beth welodd Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan



Siaradodd rhieni a gofalwyr am fyw â chymorth.



Dywedon nhw ei bod yn bwysig i gynnwys gofalwyr teuluol.



Maen nhw am i denantiaid ag anableddau dysgu gael yr un hawliau ag unrhyw denant arall. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i wahodd pobl i ymweld â nhw ar unrhyw adeg.



Dywedodd rhieni a gofalwyr ei bod yn bwysig iawn i bobl gael hobïau a bod yn rhan o'u cymuned. Dywedon nhw fod gwaith â thâl neu waith gwirfoddol hefyd yn bwysig iawn.



**Dewis a chyfle**



Siaradodd rhieni a gofalwyr am a oes gan bobl ddewis go iawn am:



- ble i fyw



- pwy i fyw gyda nhw



- beth i'w wisgo



- dodrefnu eu cartref



- gwneud rhywbeth heb ei gynllunio ymlaen llaw



**Gofal iechyd**



Roedd rhieni a gofalwyr yn meddwl bod gofal iechyd da yn bwysig iawn.

Siaradon nhw am:



- archwiliadau iechyd blynyddol



- beth i'w wneud os bydd rhywun yn mynd i'r ysbyty




Roedd rhieni a gofalwyr yn poeni am wasanaethau eiriolaeth. Er enghraifft:




- A yw eiriolwyr yn cadw gwybodaeth am bobl yn gyfrinachol?




- A ydyn nhw’n rhoi lles eu perthynas yn gyntaf?



- A yw pobl yn cael cymorth gyda’u hanghenion ysbrydol a diwylliannol?

## Sut wnaethon ni ddefnyddio'r wybodaeth hon




Cymharodd yr arolygwyr beth ddywedodd pobl gyda beth welon nhw yn yr arolygiadau.




Y 3 mater pwysig oedd:



1. Mae'n haws i bobl gael y bywyd y maen nhw ei eisiau os byddan nhw'n dod ymlaen yn dda gyda'r staff sy'n gweithio gyda nhw.



2. Mae angen i staff sy'n helpu a chefnogi pobl gefnogi eu hawliau hefyd, yn cynnwys eu hawl i wneud dewisiadau.



3. Mae angen i bobl deimlo mor ddiogel â phosibl fel y gallan nhw roi cynnig ar gyfleoedd newydd.

# Rhan 3




# Beth welodd yr arolygwyr




# Ffeithiau o'r holiaduron

Mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol weithiau'n defnyddio geiriau mewn ffordd wahanol.




Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i gytuno pa ofal, cymorth a gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl yn eu hardal cyngor lleol.




Rydyn ni’n meddwl bod tua 58,000 o oedolion ag anableddau dysgu yng Nghymru.




Mae'r cynghorau lleol a’r byrddau iechyd yn gwybod am 12,641 o'r bobl hyn yn unig.



Nid oes gan bob un o'r bobl hyn reolwr gofal, ac nid yw pob un yn cael gwasanaeth gan y cyngor lleol.



Roedd y ddau holiadur yn gofyn am bobl ag ymddygiad heriol.



Dywedon ni wrth y cynghorau lleol a'r byrddau iechyd yr hyn rydyn ni'n ei olygu wrth 'ymddygiad heriol'. Rydyn ni'n golygu pobl y mae eu teulu a staff yn ei chael yn anodd rhoi cymorth iddyn nhw oherwydd eu hymddygiad.




Ni wnaeth 6 o gynghorau lleol ateb y cwestiwn hwn.




Dywedodd y 16 o gynghorau lleol eraill fod 1,342 o bobl ag ymddygiad heriol.




Dywedodd y byrddau iechyd fod 952 o bobl ag ymddygiad heriol.



**Lle mae pobl yn byw**



Mae 5 allan o 10 o bobl ag anableddau dysgu yn byw gyda'u teulu.



Mae tua 4 allan o 10 o bobl ag anableddau dysgu yn byw yn eu cartref eu hunain gyda chymorth.



Mae 1 allan o 10 o bobl ag anableddau dysgu yn byw mewn cartref gofal.



Weithiau nid yw pobl yn gallu cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw yn yr ardal lle maen nhw'n byw.




- Roedd rhaid i 547 o bobl symud i ardal cyngor lleol wahanol er mwyn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw




- Roedd rhaid i 172 o bobl symud i ran wahanol o Gymru i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.




- Roedd rhaid i 142 o bobl symud allan o Gymru i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.



Mae hyn yn bryder i bawb, yn cynnwys y bobl ag anableddau dysgu eu hunain.



Weithiau mae pobl am symud i ardal arall. Weithiau mae symud i ardal cyngor lleol wahanol yn golygu bod y person yn byw yn agosach at ei deulu a'i ffrindiau



Ond rydyn ni'n gwybod mai'r peth gorau i'r rhan fwyaf o bobl yw cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnyn nhw yn agos at le maen nhw'n byw.




Mae tua 130 o bobl ag anableddau dysgu yn byw mewn ysbyty neu gartref gofal sy'n cael ei redeg gan y GIG.




Mae tua 53 o bobl ag anableddau dysgu yn byw mewn ysbytai preifat.




Mae tua 97 o bobl ag anableddau dysgu â phroblemau iechyd meddwl difrifol ac maen nhw'n cael eu cadw mewn ysbyty arbennig. Mae hyn yn golygu nid ydyn nhw'n gallu dewis a ydyn nhw am gael help gyda'u hiechyd meddwl.



Mae mwy na hanner y bobl hyn mewn ysbyty mewn ardal cyngor lleol wahanol i le maen nhw'n byw.



**Gwasanaethau dydd**



Mae bron i hanner yr oedolion ag anableddau dysgu yn defnyddio gwasanaethau dydd.




Nid yw gwasanaethau dydd wedi cofrestru gyda ni ac nid ydyn ni’n eu harolygu nhw.




Pan aethon ni i'r 6 chyngor lleol, aethon ni i weld gwasanaethau dydd yn yr ardal. Gwrandawon ni ar y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd.



**Arian**



Mae rhai cynghorau lleol yn gwario mwy o arian ar wasanaethau anableddau dysgu nag yr oedden nhw yn y gorffennol. Mae rhai cynghorau lleol yn gwario llai o arian.



Ni wnaethon ni weld cysylltiad rhwng gwario mwy o arian a chael gwell gofal a chymorth.




Gwelon ni mai beth sy'n bwysig yw **sut** mae'r arian yn cael ei wario.



Fe wnaethon ni ofyn faint o bobl ag anableddau dysgu y mae'r cyngor lleol a'r bwrdd iechyd yn talu am eu gofal a'u cymorth.




Dywedodd y cynghorau lleol wrthon ni fod 555. Dywedodd y byrddau iechyd wrthon ni fod 719. Nid ydyn ni’n gwybod pam bod y niferoedd yn wahanol.




Mae Ynys Môn a Phowys yn defnyddio ariannu ar y cyd yn fwy aml. Mae cynghorau lleol yn Ne Ddwyrain Cymru yn defnyddio ariannu ar y cyd yn llai aml.

## Cwestiwn 1




**A yw cynghorau lleol yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol?**

## Beth rydyn ni'n ei ddisgwyl




- Mae cymorth pobl yn cael ei drefnu'n dda ac mae'n gwneud synnwyr iddyn nhw.



- Mae gweithwyr proffesiynol a staff eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Maen nhw'n meddwl am y cymorth a allai fod ei angen ar berson yn y dyfodol.



- Mae pobl yn cael llais. Maen nhw'n cael eu hannog i ddweud eu barn a'r hyn y maen nhw ei eisiau.



- Mae rheolwyr sy'n cynllunio gofal a chymorth yn sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu trin fel bodau dynol cyfartal â hawliau a chyfrifoldebau.




## Beth welon ni





- mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.




- mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn awyddus i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



- mae gan y staff agweddau da am bobl ag anableddau dysgu








- Nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar beth mae pobl ag anableddau dysgu ei eisiau.



- Nid yw cynghorau lleol yn dda am:



  - wybod beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu yn yr ardal leol



  - cynllunio ar gyfer y gwasanaethau lleol cywir yn y dyfodol



## Gweledigaeth a newid




Mae'r rhan fwyaf o ofal a chymorth yn dal yn seiliedig ar beth oedd Strategaeth Cymru Gyfan yn dweud yn 1983.




Dangosodd y Strategaeth beth all ddigwydd os bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i wneud i newidiadau ddigwydd.





Yn awr, mae angen i gynghorau lleol, iechyd, darparwyr gwasanaeth a chyrff gwirfoddol eraill gael:



- gweledigaeth newydd ar gyfer y dyfodol



- gwell dealltwriaeth o beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu er mwyn iddyn nhw gael y bywyd y maen nhw ei eisiau



- ffyrdd newydd o feddwl am wasanaethau gofal a chymorth




Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn helpu. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn elwa cymaint ar y Ddeddf ag unrhyw un arall.




**Cynlluniau pobl**




Mae'r rhan fwyaf o dimau gofal cymdeithasol a thimau iechyd yn dda am gynllunio gyda phob person. Maen nhw'n dda am feddwl pa gymorth gall fod ei angen ar y person yn y dyfodol.




Mae'r rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu yn cael gofal cymdeithasol a chymorth iechyd da. Pan fydd angen cymorth gan wahanol weithwyr proffesiynol, mae’r gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.



Roedd pob cyngor lleol a bwrdd iechyd yn siarad am 'ganolbwyntio ar yr unigolyn'. Roedd staff ym mhob ardal cyngor lleol yn sôn am 'ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'.



Ond nid oedd pawb yn golygu yr un peth.






Roedd rhai staff yn meddwl ei fod yn golygu gofyn i bobl beth maen nhw am ei gael, ond nid oedd yn newid y ffordd y maen nhw’n trefnu eu gofal a chymorth. Roedd rhai staff yn meddwl ei fod yn golygu cefnogi pobl i ysgrifennu eu cynllun eu hunain.



## Cynllunio ar gyfer y dyfodol




Nid yw llawer o gynghorau lleol wedi gwneud rhestr o beth sydd ei angen ar bawb. Ond dyma'r unig ffordd i wneud cynlluniau am y gwasanaethau sydd eu hangen yn ardal y cyngor lleol. Mae cynghorau sydd â rhestr hefyd yn gwneud y pethau hyn:



- Mae ganddyn nhw gysylltiad da gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau eraill. Maen nhw'n siarad gyda nhw a gwrando ar eu syniadau am y dyfodol.



- Maen nhw wedi dechrau gwneud newidiadau mawr i'r ffordd y maen nhw'n meddwl am ofal a chymorth ac yn ei ddarparu.



Mae arweinwyr iechyd yn deall heriau gwneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael y gwasanaethau iechyd cywir.



Nid oes gan y rhan fwyaf o fyrddau iechyd ffordd i gael gwybod:



- pa wasanaethau iechyd sydd eu hangen yn yr ardal leol



- os yw gwasanaethau iechyd yn helpu pobl i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau

**Cydweithio**




Mae gan rai cynghorau lleol a byrddau iechyd  ffyrdd o:



- gynllunio'r dyfodol gyda'i gilydd





- dewis, prynu a gwirio gwasanaethau gyda'i gilydd



Mae'n anodd gweithio gyda'i gilydd pan mae uwch reolwyr ac arweinwyr yn cadw newid.



## Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?



I bobl ag anableddau dysgu i gael y bywydau y maen nhw eu heisiau, mae angen i gynghorau lleol a byrddau iechyd wneud y pethau hyn:



- gwrando ar bobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a darparwyr gwasanaeth



- gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a darparwyr gwasanaeth wrth iddyn nhw ysgrifennu cynlluniau a meddwl am weledigaeth ar gyfer y dyfodol



- cael gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, a chynlluniau da sy'n dweud sut y byddan nhw'n gwneud i'r weledigaeth ddigwydd




- cael arweinyddiaeth dda



- cael ffyrdd da i wirio ansawdd



- cael ffyrdd da i ddewis, prynu a gwirio gwasanaethau



- cael cynlluniau gofal clir pan na all person gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw yn yr ardal lle maen nhw'n byw



- gwneud yn siŵr eu bod nhw'n deall 'cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person' ac ysgrifennu cynlluniau pobl gyda nhw



- gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill




- gwneud beth mae'n ei ddweud mewn strategaethau a chynlluniau lleol




- cael cyfathrebu da rhwng timau. Mae hyn yn haws pan



  - mae timau yn yr un adeilad



  - mae timau yn defnyddio'r un system gyfrifiadurol




I staff weithio'n dda, mae angen:




- rheolwyr da



- arweinwyr sydd eisiau i bobl ag anableddau dysgu gael y bywyd y maen nhw ei eisiau



- goruchwyliaeth, cymorth a chyfleoedd dysgu da



Mae'n anodd i bethau fynd yn dda pan:



- nid yw cynghorau lleol a byrddau iechyd yn cynllunio sut y byddan nhw'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a darparwyr gwasanaeth, a gwrando arnyn nhw



- nid yw byrddau iechyd yn rhoi arweiniad da i'w tîm iechyd anableddau dysgu cymunedol



- mae timau yn defnyddio eu systemau cyfrifiadurol fel esgus am gyfathrebu gwael



- nid oes digon o staff



- mae'n rhaid i reolwyr boeni llawer am arian




- mae pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol eisiau pethau gwahanol



## Beth sydd angen ei newid?




Rydyn ni am gynghorau lleol a byrddau iechyd wneud y pethau hyn gyda'i gilydd:




- cynllunio sut i wario eu harian




- gwirio a yw gwasanaethau yn helpu pobl i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau



- casglu gwybodaeth am y cymorth sydd ei angen ar bobl yn yr ardal leol yn awr ac yn y dyfodol




- ysgrifennu cynllun sy'n dweud sut y byddan nhw'n dewis, prynu a gwirio gwasanaethau a fydd yn helpu pobl i gael y bywyd y maen nhw am ei gael



- yn siarad gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol a gwrando arnyn nhw, a gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar weledigaeth newydd ar gyfer gofal a chymorth



Eisiau gwybod mwy? Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth yn y 6 adroddiad cyngor lleol.



- Mae gwybodaeth yn adroddiad Torfaen am lawer o bethau sy'n gweithio'n dda



- Mae gwybodaeth am ffyrdd da i gynllunio ar gyfer y dyfodol a ffyrdd newydd o feddwl am ofal a chymorth yn adroddiad Pen-y-bont




## Cwestiwn 2

Pa mor dda mae cynghorau lleol yn:




- rhoi gwybodaeth a chyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal




## Beth i'w ddisgwyl



- Mae pobl yn gwybod beth yw'r dewisiadau ar gyfer eu cymorth. Maen nhw'n gwybod sut i gael y cymorth cywir pan fyddan nhw ei angen.



- Mae llais gan bobl. Maen nhw'n cael eu hannog i ddweud beth maen nhw'n ei feddwl a beth maen nhw ei eisiau.




- Mae pobl yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg, oni bai nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg.



- Mae pobl yn cael help yn seiliedig ar beth sydd ei angen arnyn nhw a'r bywyd y maen nhw ei eisiau.




- Mae pobl yn ddiogel.



- Mae pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'r bobl sy'n eu cefnogi. Maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n eu parchu a'u gwerthfawrogi.



- Mae gofalwyr teuluol pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.




## Beth welon ni





- Mae staff o wahanol wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd fel bod pobl yn cael y cymorth cywir.



- Mae'r rhan fwyaf o'r staff am wrando ar beth y mae'r person ag anableddau dysgu ei eisiau.



- Weithiau mae angen math unigryw o gymorth ar bobl - ac mae rhai o'r bobl hyn yn ei gael.



- Cefnogaeth i bobl ifanc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.



- Mae rhai cynlluniau ardderchog ar gyfer 'cymorth ymddygiad cadarnhaol'.



- Mae peth gwaith rhagorol gan weithwyr cyswllt iechyd sy'n gwneud yn siŵr bod meddygon, ysbytai a staff iechyd eraill yn gwybod sut i gefnogi cleifion ag anableddau dysgu.





- Gwybodaeth wael i bobl am gyfleoedd a dewisiadau.



- Nid yw staff yn siarad â phobl am eu cyfleoedd a dewisiadau.



- Nid oes digon o arweinyddiaeth am gadw oedolion yn ddiogel.



- Mae pethau'n aros yr un peth i bobl, yn hytrach na'u bod yn cael cymorth i gael mwy o sgiliau, bod yn fwy hyderus a dod yn fwy annibynnol.



- Mae pobl yn golygu pethau gwahanol pan fyddan nhw'n dweud 'cymorth ymddygiad cadarnhaol'.



- Cynllunio gwael am ddyfodol gwasanaethau dydd.



- Nid yw'r system Gofal Iechyd Parhaus yn gweithio'n dda i bobl ag anableddau dysgu.




**Gwybodaeth a chyngor**



Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd ag anableddau dysgu yn cael gwybodaeth wyneb-yn-wyneb gan eu rheolwr gofal neu staff cymorth. Mae hyn yn dda. Ond mae pobl angen ffyrdd eraill o gael gwybodaeth hefyd.




Mae gan rai cynghorau lleol peth gwybodaeth Hawdd ei Darllen.  Ond ychydig bach iawn o wybodaeth Hawdd ei Darllen sydd gan rai cynghorau.



Ar draws Cymru, mae angen i ni wneud mwy i wneud yn siŵr bod pobl ag anableddau a'u gofalwyr teuluol yn gallu cael gwybodaeth glir sy'n hawdd ei deall.



**Staff**



Mae gan y rhan fwyaf o'r staff agweddau da iawn am bobl ag anableddau dysgu. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw am wrando, deall a helpu cystal ag y gallan nhw.





Mae cael y staff iawn a rheolwyr da yn fwy pwysig na chael timau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr un adeilad.



Pan fydd staff yn teimlo nad ydyn nhw'n cael cymorth gan eu cyflogwr, mae'n anodd iddyn nhw wneud eu gwaith.



Mae'n anodd i staff iechyd a gofal cymdeithasol  weithio gyda'i gilydd oherwydd eu bod nhw'n defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol.



Mae staff yn siarad am 'cymorth ymddygiad cadarnhaol'. Mae rhai yn ei ddefnyddio'n dda iawn. Ond nid pawb. Weithiau mae staff yn cymysgu'r jargon ac yn defnyddio'r geiriau anghywir.





**Cadw pobl yn ddiogel**




Mae bron pawb edrychon ni ar eu ffeiliau nhw yn  ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.




Roedd angen i ni ddweud wrth gynghorau lleol am ddatrys problemau i nifer fach o bobl.




Mae'r gan yr holl gynghorau lleol y gwnaethon ni eu harolygu restr aros ar gyfer penderfyniadau am bobl a allai fod angen cyfyngu eu rhyddid i'w cadw'n ddiogel.




Mae'r rhestr aros oherwydd bod angen i gynghorau wneud penderfyniadau am fwy o bobl. Mae pob un o'r cynghorau yn ceisio gwneud rhywbeth am y rhestr aros. Nid oes ateb hawdd.



Mae ffyrdd i wirio:



- os yw rhai mathau o wasanaeth yn llai diogel



- os nad yw rhai mathau o wasanaeth yn dda am helpu pobl i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau




- os yw rhai grwpiau o bobl mewn perygl



Rydyn ni'n credu ei fod yn broblem nad yw hyn yn cael ei wirio ar draws Cymru.



Mae dod â systemau at ei gilydd i wneud yn siŵr bod oedolion a phlant yn cael eu cadw'n ddiogel wedi drysu rhai staff a rheolwyr.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd y system newydd yn gweithio'n dda yn y dyfodol. Ond ar hyn o bryd, efallai y bydd yn ei wneud  yn fwy anodd i rai staff fod yn glir am beth mae angen iddyn nhw ei wneud i sicrhau bod pobl yn ddiogel.



Mae timau iechyd cymunedol yn dweud wrth y cyngor os ydyn nhw'n poeni y gallai rhywun fod yn anniogel. Nid ydyn nhw'n dweud bob amser wrth y bwrdd iechyd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i fyrddau iechyd wybod beth sy'n digwydd.




**Cynlluniau a chymorth pobl**



Mae tua 2 allan o 3 o bobl yn cael cymorth da. Ond mae tua 1 allan o 3 yn cael cymorth sydd angen iddo fod yn well.



Mae angen offer ar rai pobl.



Mae enghreifftiau da yng Nghymru o bobl yn cael y dechnoleg gywir, er enghraifft, iPads i'w helpu nhw i gyfathrebu.



Ond mae llawer o bobl yn ei chael yn anodd cael yr offer cywir, er enghraifft y gadair gywir.




Fel arfer mae pobl sy'n siarad Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.




Mae hyn yn fwy anodd pan dim ond ychydig o bobl yn ardal y cyngor lleol sy’n gallu siarad Cymraeg.



**Gwasanaethau dydd a bod yn rhan o'r gymuned**



Mae llawer o bobl yn defnyddio gwasanaethau dydd. I lawer o bobl, y gwasanaeth dydd yw'r prif le y maen nhw'n cwrdd â'u ffrindiau.



Mae rhai cynghorau lleol am newid gwasanaethau dydd.



Mae rhai pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn anhapus am hyn. Yn aml maen nhw'n anhapus am nad oedd y cyngor wedi siarad â nhw yn gyntaf am y bywyd y maen nhw ei eisiau.





Mae rhai pobl ag anableddau dysgu yn teimlo'n anniogel ar eu pen eu hunain yn eu cymuned.



**Cael llais**



Mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithio'n galed i annog pobl i ddweud eu dweud am eu gofal a'u cymorth nhw.



Mae rhai pobl yn cael cymorth eiriolaeth i'w helpu nhw i ddweud yr hyn y maen nhw ei eisiau.




Mewn cynghorau lleol da, mae ffeiliau pobl yn dangos eu bod nhw wedi cael dweud eu dweud am eu gofal a'u cymorth.



Mae o leiaf un cyngor yn wael am wneud hyn.



Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau dydd yn aml yn cael grwpiau lle y gall pobl ag anableddau ddweud eu dweud.



Weithiau, nid yw'r cyngor yn gwneud llawer i gefnogi'r grwpiau hyn.



Mae staff iechyd yn dda am siarad ar ran pobl ag anableddau dysgu.




Maen nhw'n dda am wneud yn siŵr bod pawb yn cofio bod gan bobl ag anableddau dysgu hawliau.



**Lle mae pobl yn byw**



Mae angen i gynghorau lleol feddwl am ble mae teuluoedd a gofalwyr teuluol pobl yn byw, yn ogystal â lle mae pobl ag anableddau dysgu yn byw.



Mae tua 4 allan o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu yn byw yn eu cartref eu hunain gyda chymorth.




Rydyn ni'n arolygu asiantaethau sy'n darparu'r cymorth.



Ond nid ydyn ni'n arolygu cartrefi pobl. Mae llawer yn cael cymorth da.



Nid yw rhai pobl yn cael y cymorth cywir felly ni allan nhw gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



I rai pobl, mae'r un gwasanaeth yn darparu eu cartref a'u cymorth. Nid yw hyn yn dda.



Mae 1 allan o bob 10 o bobl yn byw mewn cartref gofal. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn yn cael gofal a chymorth da.




Ond mae angen i'r rhan fwyaf gael mwy o lais yn eu cynlluniau gofal ac adolygiadau.



Mae angen i'w cynlluniau gofal ddweud mwy am sut y byddan nhw'n ennill sgiliau newydd a dod yn fwy annibynnol.



**Dod yn oedolyn**




Yn y gorffennol, nid oedd cynghorau lleol yn dda am gefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.



Mae hyn wedi dod yn llawer gwell. Mae rhai pobl ifanc a'u teuluoedd wedi gwneud eu cynlluniau eu hunain, gyda chymorth gan staff iechyd a gofal cymdeithasol.



**Gofalwyr teuluol**



Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr yn aelodau o'r teulu. Mae gofalwyr teuluol yn cael profiadau cymysg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud pethau da am y cymorth y maen nhw'n ei gael.



Ond roedd llawer yn pryderu am gymorth a chynllunio ar gyfer y person y maen nhw'n gofalu amdano.



Dywedodd rhai gofalwyr teuluol nad oedd eu cyngor lleol yn eu cynnwys nhw mewn penderfyniadau am y dyfodol neu am eu cynlluniau i newid gwasanaethau.



Roedd hyn yn fwy o broblem mewn cynghorau lleol lle nad oes ganddyn nhw weledigaeth glir.



**Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?**



I bobl ag anableddau dysgu gael y bywyd y maen nhw ei eisiau, mae angen i gynghorau lleol a byrddau iechyd gael:




- rheolwyr gofal sydd yn dda am gyfathrebu â Makaton a Picture Exchange (PECS)




- rheolwyr gofal sy'n defnyddio iaith glir, ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu deall eu cynlluniau




- rheolwyr gofal sy'n gweithio gyda phobl i ysgrifennu cynllun clir sy'n dweud beth ddylai ddigwydd, a sut y byddan nhw'n gwirio a yw'n digwydd



- gwiriadau ansawdd fel bod pawb yn cael y cymorth cywir




- iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a gyrfaoedd yn cydweithio gyda pherson ifanc sydd yn dod yn oedolyn a gyda'i deulu neu ofalwr




- ffordd o wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol, gweithio gyda nhw a rhoi gwybodaeth dda iddyn nhw am newidiadau



- meddygon, staff ysbytai a staff iechyd eraill sy'n gwybod sut i gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Mae cael nyrsys 'cyswllt iechyd' yn gweithio'n dda. Mae gwybodaeth iechyd Hawdd ei Darllen yn helpu hefyd.



Mae'n anodd i bethau fynd yn dda pan:




- Nid oes digon o wybodaeth glir, hawdd ei deall i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.





- Mae staff yn drysu rhwng 'cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person', 'cymorth gweithredol' a 'chymorth ymddygiad cadarnhaol'. Mae'r rhain yn dair ffordd wahanol o geisio gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



- Mae pobl yn cael eu gadael fel y maen nhw.




- Mae anghytundeb ynghylch pwy fydd yn talu am gymorth rhywun. Mae hyn yn gwneud bywyd yn anodd i staff. Nid ydyn ni'n credu bod y dadleuon am arian yn gwneud bywyd yn anodd i bobl ag anableddau dysgu.




- Ni yw cynghorau lleol yn gallu cael digon o staff sy'n siarad Cymraeg.



- Nid yw meddygon, staff ysbytai a staff iechyd eraill yn deall sut i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.



## Beth sydd angen ei newid?




Dylai cynghorau lleol wneud yn siŵr bod ganddyn nhw ffordd dda i gadarnhau a yw:




- staff yn gweithio gyda phobl i ysgrifennu eu cynllun gofal eu hunain



- cynlluniau gofal pobl am y bywyd y mae person am ei gael



- cynlluniau gofal pobl yn cael eu gwirio'n rheolaidd



Mae angen i gynghorau lleol weithio gyda phobl ag anableddau dysgu ar eu cynlluniau ar gyfer dyfodol gwasanaethau dydd.



Mae rhai cynghorau lleol a byrddau iechyd yn gwneud gwaith ardderchog. Dylen nhw ddweud wrth eraill:



- beth maen nhw'n ei wneud



- sut maen nhw'n ei wneud



- sut maen nhw wedi gwneud newidiadau




Mae angen i gynghorau lleol a byrddau iechyd feddwl am eu systemau ar gyfer cadw pobl yn ddiogel. Dylen nhw wneud yn siŵr bod yr holl staff yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am wneud beth.



Mae angen i lawer o feddygon, staff ysbytai a staff iechyd eraill gael cymorth i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod sut i roi gofal da i bobl ag anableddau dysgu.



Yr enw am hyn yw 'Cyswllt Iechyd'. Mae cyswllt iechyd yn bwysig iawn. Dylai byrddau iechyd feddwl am ffyrdd o wneud mwy o waith cyswllt iechyd.



Ni ddylai rhaid i bobl aros am amser hir i gael offer sydd ei angen arnyn nhw. Dylai byrddau iechyd weithio gyda chynghorau lleol i wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd.



Mae Gofal Iechyd Parhaus yn ofal a chymorth y mae'r GIG yn talu amdano. Nid yw'r system yn gweithio'n dda iawn ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, felly:



- dylai pobl sy'n gwneud polisi feddwl am newid y system fel ei bod yn gweithio'n well




- dylai byrddau iechyd weithio gyda chynghorau lleol a chytuno ar beth i'w wneud pan fydd rhywun yn gwneud cais am Ofal Iechyd Parhaus.



**Eisiau gwybod mwy? Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y 6 adroddiad cyngor lleol.**

TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Llais Cenedlaethol Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru
Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First
The National Voice of People with Learning Disabilities in Wales

- **Mae gwybodaeth am sut mae'r cyngor yn gweithio gyda Phobl yn Gyntaf yn adroddiad Torfaen**

- **Mae gwybodaeth am sut mae'r cyngor yn gweithio gyda Chyswllt Conwy yn adroddiad Conwy**



- **Mae gwybodaeth am rai o'r pethau sy'n gallu digwydd os nad yw pobl yn gallu cael gwybodaeth glir sy'n hawdd ei deall yn adroddiadau Sir Benfro, Gwynedd a Merthyr**




- **Mae gwybodaeth am rai o'r pethau da y mae Bwrdd Ysbyty Prifysgol Aneurin Bevan yn ei wneud yn adroddiad Torfaen.**

## Cwestiwn 3



**A oes gan gynghorau lleol weledigaeth glir, ac a yw pobl eraill yn cytuno â'r weledigaeth honno?**




## Beth rydyn ni'n ei ddisgwyl




- Mae cynghorau lleol yn arwain, ac yn arwain mewn partneriaeth â phobl.




- Mae gan bobl ag anableddau dysgu yr un hawliau â phawb arall, felly mae cynghorau lleol yn helpu pobl i ddefnyddio eu hawliau.

  Mae cynghorau lleol yn siarad â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol, yn gwrando ac yn gweithio gyda nhw ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynghorau yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gwneud i bobl ymddiried ynddyn nhw.





- Mae pobl yn cael gwybod sut mae eu llais wedi gwneud gwahaniaeth. Os nad yw eu llais wedi gwneud gwahaniaeth, maen nhw'n cael gwybod pam.



- Mae’r weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn dweud y bydd pobl yn cael cymorth i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau. Mae'r weledigaeth yn dweud sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol.






- Mae pobl yn teimlo bod eu gofal a'u cymorth wedi'i drefnu'n dda ac yn cynnig gwerth da am arian. Maen nhw’n cael cymorth da oherwydd bod y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a sefydliadau gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.




# Yr hyn a welon ni






- Mae arweinwyr eisiau i bobl ddefnyddio'r un hawliau â phawb arall.



- Mae rhai cynlluniau rhanbarthol sydd wedi gwneud bywydau pobl yn well.



- Mae cynghorau sy'n gwrando ar bobl ac yn gweithio gyda nhw yn well am gael gweledigaeth a gwneud i'r weledigaeth honno ddigwydd.





- Nid yw llawer o ardaloedd â gweledigaeth neu gynllun ar gyfer y dyfodol, neu nad ydyn nhw wedi gwrando ar bobl a gweithio gyda nhw i gytuno ar weledigaeth ar gyfer y dyfodol.



- Nid yw cynghorau lleol a byrddau iechyd wedi gwneud llawer o gynllunio gyda'i gilydd.



- Nid oes digon o wasanaethau yn cael eu cynllunio a'u trefnu gan gynghorau lleol a byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.



- Nid oes llawer o enghreifftiau o gynghorau lleol neu fyrddau iechyd yn cynllunio sut y byddan nhw'n gwrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol a gweithio gyda nhw.




**Arwain mewn partneriaeth**




Mae arweinwyr ar draws Cymru am helpu pobl ag anableddau dysgu i wybod am a defnyddio eu hawliau.



Mae’r rhan fwyaf o'r staff yn gwneud hynny yn barod pan fyddan nhw’n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu.




Ond yn y rhan fwyaf o ardaloedd cynghorau lleol, nid oes cynllun sy'n dweud beth fydd y cyngor lleol a’r bwrdd iechyd yn gwneud fel bod pobl yn gwybod am ac yn defnyddio eu hawliau.




Mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol yn meddwl eu bod nhw’n dda am weithio mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



Ond nid ydyn ni'n meddwl hynny. Rydyn ni'n meddwl bod angen i'r rhan fwyaf o gynghorau lleol wneud hyn yn well.



Mae gwneud newidiadau yn anodd. Mae gwneud newidiadau **a** gwneud toriadau yn fwy anodd.




Mae hyd yn oed yn fwy anodd i wneud hynny os nad yw pobl yn ymddiried ynoch chi ac yn meddwl nad ydych chi'n gwrando arnyn nhw.



Y cynghorau sy'n gwella o ran gweithio gyda phobl yw'r rhai sy'n well am gael gweledigaeth a chynllun ar gyfer y dyfodol.




Mae angen i fyrddau iechyd wella o ran cyfathrebu â'u staff. Mae angen iddyn nhw allu dweud wrth staff beth yw eu gweledigaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.




Mae pobl ag anableddau dysgu angen i wasanaethau iechyd a chymdeithasol weithio gyda'i gilydd.



Mae staff yn y timau cymunedol yn dda ar y cyfan am weithio gyda'i gilydd. Ond mae angen i'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd a chynghorau lleol weithio gyda'i gilydd yn well.




Mae'n anodd gweithio gyda sefydliad pan fydd yn newid y ffordd y mae'n cael ei drefnu.



Mewn rhai cynghorau lleol, nid yw uwch reolwyr yn gwybod pa berson yn y bwrdd iechyd sydd angen iddyn nhw weithio gyda nhw.

Mae angen i Fyrddau Iechyd wella o ran:




- cefnogi a gweithio gyda'u tîm iechyd anableddau dysgu cymunedol




- gweithio gyda chynghorau lleol



- gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy wrando ar bobl ag anableddau dysgu a gweithio gyda nhw




Mae rhai pobl yn teimlo nad yw Byrddau Iechyd yn credu bod gwasanaethau anableddau dysgu yr un mor bwysig â gwasanaethau iechyd meddwl.



Mae llawer o nyrsys anableddau dysgu yn mynd yn hŷn. Mae hyn yn golygu bod angen i Fyrddau Iechyd wneud yn siŵr eu bod yn hyfforddi nyrsys anableddau dysgu newydd ar gyfer y dyfodol.



# Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?



I bobl ag anableddau dysgu gael y bywyd y maen nhw ei eisiau, mae angen i gynghorau lleol a byrddau iechyd gael:







- Arweinwyr sy'n meddwl ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael y bywyd y maen nhw ei eisiau
- Gweledigaeth. Mae gan sefydliadau â gweledigaeth arweinwyr sy'n gwrando ar bobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a darparwyr gwasanaeth, ac yn gweithio gyda nhw.





- Parch tuag at eu staff



Mae'n anodd i bethau fynd yn dda pan:



- Mae arweinwyr ac uwch reolwyr yn cadw newid



- Nid oes gan sefydliadau gynllun. Neu os oes ganddyn nhw gynllun, nid yw'n gwrando neu yn parchu hawliau pobl ag anableddau dysgu



- Nid yw arweinwyr yn gwrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



- Nid yw arweinwyr yn gwrando ar neu'n gweithio gyda'u staff




## Beth sydd angen ei newid?




Dylai pobl sy'n gwneud, polisi, byrddau iechyd a chynghorau lleol:



- siarad â phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a darparwyr gwasanaeth.



- gwrando ar eu syniadau ar gyfer y dyfodol




- gweithio gyda nhw ar weledigaeth newydd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf newydd




Dylai byrddau iechyd a chynghorau lleol wneud yn siŵr eu bod nhw'n cyfathrebu â'i gilydd a'u staff.



Mae angen arweiniad clir ar fyrddau iechyd am bwy ddylai wneud beth os bydd rhywun yn gorfod gadael yr ardal lle maen nhw'n byw i gael y gwasanaeth sydd ei angen arnyn nhw.




Dylai byrddau iechyd feddwl am eu staff. Dylen nhw feddwl pa staff bydd eu hangen arnyn nhw yn y dyfodol.



Yna, mae angen iddyn nhw wneud cynlluniau fel y bydd y staff iawn gyda nhw yn y dyfodol.



**Eisiau gwybod mwy? Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y 6 adroddiad cyngor lleol.**



- **Mae gwybodaeth am y ffordd y maen nhw wedi gweithio gyda sefydliadau eraill i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn adroddiadau Torfaen a Phen-y-bont.**




- **Mae gwybodaeth am yr anawsterau o weithio gyda'i gilydd os nad oes gan y cyngor lleol a'r bwrdd iechyd weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn adroddiadau Conwy a Merthyr**



- **Mae gwybodaeth am gynllunio gyda phobl ag anableddau dysgu yn adroddiad Conwy.**